OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 70 (Cy. 26)

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

## Gorchymyn Gweithrediadau Pysgota Môr (Dyfeisiau Monitro) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Ionawr 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *27 Ionawr 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *15 Chwefror 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 5(1) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968(**1**) sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**).

**Enwi, cychwyn, rhychwantu a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gweithrediadau Pysgota Môr (Dyfeisiau Monitro) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Chwefror 2022.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn—

(a) yn rhychwantu Cymru a Lloegr;

(b) yn gymwys mewn perthynas â—

(i) cychod pysgota Cymreig ar y môr, ym mha le bynnag y bônt;

(ii) cychod pysgota perthnasol sy'n pysgota yng Nghymru neu ym mharth Cymru.

(**1**) 1968 p. 77 ("Deddf 1968"). Diwygiwyd adran 5(1) gan adran 4(2) o Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p. 86). *Gweler* adran 19 o Ddeddf 1968 am ddiffiniad o "the Ministers"; diwygiwyd y diffiniad o "the Ministers" yn adran 19 gan O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, Rhan I, paragraff 48(1) a (5)(c).

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) trosglwyddwyd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adran 5 o Ddeddf 1968 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru (gan weithredu ar y cyd ag unrhyw un o Weinidogion y Goron y mae'r pwerau hynny yn arferadwy ganddynt ynghylch adnabod a marcio cychod pysgota). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny o eiddo Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Yn rhinwedd erthyglau 4(1)(c) a 5(1)(c) o Orchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/760), trosglwyddwyd ymhellach swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adran 5 o Ddeddf 1968 i Weinidogion Cymru mewn perthynas â pharth Cymru (gan weithredu ar y cyd ag unrhyw un o Weinidogion y Goron y mae'r pwerau hynny yn arferadwy ganddynt o dan adran 5 ynghylch adnabod a marcio cychod pysgota). Yn rhinwedd adran 59A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 2(1) a (2)(c) o Atodlen 3A iddi, trosglwyddwyd ymhellach swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adran 5 o Ddeddf 1968 i Weinidogion Cymru mewn perthynas a chychod pysgota Cymreig y tu hwnt i derfyn parth Cymru (gan weithredu ar y cyd ag unrhyw un o Weinidogion y Goron y mae'r pwerau hynny yn arferadwy ganddynt mewn perthynas â swyddogaethau o dan adran 5(1) a (2)(a) o Ddeddf 1968). *Gweler* paragraff 2(4) o Atodlen 3A am y diffiniad o "Welsh fishing boat" ("cwch pysgota Cymreig").

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cwch pysgota Cymreig" ("*Welsh fishing boat*") yw llestr bysgota o lai na 12 metr o hyd sydd—

(a) wedi ei chofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran 2 o Ddeddf Llongau Masnach 1995(**3**) ac y mae ei chofnod yn y gofrestr honno yn pennu porthladd yng Nghymru y mae'r llestr i'w thrin fel pe bai yn perthyn iddo; a

(b) wedi ei thrwyddedu o dan adran 15 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020;

ystyr "cwch pysgota perthnasol" ("*relevant fishing boat*") yw llestr bysgota o lai na 12 metr o hyd sydd wedi ei thrwyddedu o dan adran 15 neu adran 17 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020(**4**), ac eithrio cwch pysgota Cymreig;

ystyr "dyfais fonitro" ("*monitoring device*") yw dyfais sydd â rhif adnabod unigryw ac sy'n gallu trosglwyddo'r wybodaeth ofynnol bob 30 eiliad;

ystyr "gweithrediadau pysgota" ("*fishing operations*") yw dal pysgod ac mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n ategol i hynny;

ystyr "hyd" ("*length*") mewn perthynas â chwch pysgota, yw'r hyd a gyfrifir yn unol â'r rheolau a bennir yn Erthygl 2(1) o Reoliad (EU) 2017/1130 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 14 Mehefin 2017 sy'n diffinio nodweddion llestrau pysgota(**5**);

ystyr "IRCS" ("*IRCS*") yw arwydd galwad radio rhyngwladol y cwch pysgota(**6**);

ystyr "y person sydd â gofal" ("*the person in charge*") yw perchennog, meistr neu siartrwr, os oes un, y cwch pysgota;

ystyr "Rhif Cofrestr Fflyd" ("*Fleet Register Number*") yw—

(a) y rhif cofrestr fflyd y Deyrnas Unedig a aseiniwyd i'r llestr gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel y cyfeirir ato yn Erthygl 8 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/218(**7**); neu

(b) y rhif cofrestr fflyd gyffredin a aseiniwyd i'r llestr gan Aelod-wladwriaeth fel y cyfeirir ato yn Erthygl 8 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/218 ar gofrestr fflyd bysgota'r Undeb(**8**);

ystyr "yr wybodaeth ofynnol" ("*the required information*") yw'r wybodaeth a bennir yn erthygl 4.

**Rheoleiddio gweithrediadau pysgota**

**3.**—(1) Ni chaniateir i'r cwch pysgota ymgymryd â gweithrediadau pysgota oni bai—

(a) bod dyfais fonitro wedi ei gosod arno;

(b) yr hysbyswyd Gweinidogion Cymru ynghylch—

(i) rhif adnabod unigryw'r ddyfais fonitro;

(ii) enw'r cwch pysgota y mae'r ddyfais fonitro wedi ei gosod arno;

(iii) Rhif Cofrestru Fflyd neu IRCS y cwch pysgota; ac

(**3**) 1995 p. 21. Diwygiwyd Rhan 2 gan O.S. 2002/794 ac O.S.2015/664.
(**4**) 2020 p. 22.
(**5**) EUR 2017/1130.
(**6**) Dyrennir yr arwydd galwad radio rhyngwladol i gwch pysgota gan yr awdurdod telathrebu cenedlaethol i bob llestr sydd â chyfarpar radio ar ei bwrdd, fel rhan o'r broses trwyddedu radio. Dyrennir cyfres o arwyddion galwad i bob gwlad gan yr Undeb Telathrebu Rhyngwladol.
(**7**) EUR 2017/218.
(**8**) OJ Rhif L 34, 9.2.2017, t. 9.

(c) bod y ddyfais fonitro yn trosglwyddo'r wybodaeth ofynnol i Weinidogion Cymru o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o ddeng munud.

(2) Pan fo'r cwch pysgota yn cael ei ddefnyddio yn groes i baragraff (1), mae'r person sydd â gofal amdano yn euog o drosedd.

**Yr Wybodaeth Ofynnol**

**4.** Yr wybodaeth ofynnol yw—

(a) rhif adnabod unigryw'r ddyfais fonitro;

(b) safle daearyddol diweddaraf y cwch hwnnw gan ddefnyddio cyfesurynnau lledred a hydred ar System Geodetig y Byd 1984(**9**), gyda chyfeiliornad safle o lai na 10 metr;

(c) dyddiad ac amser, wedi eu mynegi mewn Amser Cyffredinol Cyd-drefnedig, unrhyw safle daearyddol y cwch hwnnw; a

(d) cyflymder a chwrs y cwch hwnnw ar yr adeg honno.

**Cyfrifoldebau parhaus ynghylch y dyfeisiau monitro**

**5.** Rhaid i'r person sydd â gofal am y cwch pysgota wneud pob ymdrech resymol i sicrhau—

(a) nad oes modd gwrthwneud y ddyfais fonitro â llaw;

(b) nad yw'r ddyfais fonitro yn cael ei dinistrio, ei difrodi, ei gwneud yn anweithredol, neu nas amherir â hi fel arall;

(c) nad yw unrhyw antena sy'n gysylltiedig â'r ddyfais fonitro yn cael ei rwystro mewn unrhyw ffordd; a

(d) nad yw'r cyflenwad pŵer i'r ddyfais fonitro yn cael ei dorri.

**Methiant Dyfais Fonitro**

**6.**—(1) Os nad yw'r ddyfais fonitro ar fwrdd y cwch pysgota yn gallu trosglwyddo'r wybodaeth ofynnol, rhaid i'r person sydd â gofal, ar yr adeg y mae'n gwybod, neu y gellir disgwyl yn rhesymol iddo wybod, bod y ddyfais wedi stopio trosglwyddo'r wybodaeth—

(a) hysbysu Gweinidogion Cymru nad yw'r ddyfais fonitro yn gallu trosglwyddo'r wybodaeth ofynnol; a

(b) sicrhau nad yw'r cwch pysgota yn ymgymryd ag unrhyw weithrediadau pysgota pellach hyd nes y gall y ddyfais fonitro drosglwyddo'r wybodaeth berthnasol yn unol ag erthygl 3(1)(c) a bod hysbysiad ynghylch hynny wedi ei roi i Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (1)(a) neu (b) gynnwys—

(a) rhif adnabod unigryw'r ddyfais fonitro;

(b) enw'r cwch pysgota y mae'r ddyfais fonitro wedi ei gosod arno;

(c) Rhif Cofrestru Fflyd neu IRCS y cwch pysgota; a

(d) pan fo hynny'n hysbys i'r person sydd â gofal—

(i) yr amser pryd stopiodd y ddyfais fonitro drosglwyddo'r wybodaeth ofynnol;

(ii) y rheswm neu'r rhesymau dros fethiant y ddyfais fonitro i weithio'n gywir;

(**9**) Mae System Geodetig y Byd 1984 ("WGS 84") yn diffinio ffrâm gyfeirio ar gyfer y ddaear, i'w defnyddio ym maes geodeseg a mordwyaeth. Fe'i datblygwyd gan Asiantaeth Gwybodaeth Geo-ofodol yr Unol Daleithiau, a chaiff ei chynnal ganddi. Diffinnir WGS 84 ym mharagraff 2.1 o Adroddiad Technegol Asiantaeth Genedlaethol Delweddau a Mapiau'r Unol Daleithiau TR8350.2, trydydd argraffiad, diwygiad 1 dyddiedig 3 Ionawr 2000 o'r enw "Department of Defense World Geodetic System 1984" https://gis-lab.info/docs/nima-tr8350.2-wgs84fin.pdf.

(iii) pa elfen o'r wybodaeth ofynnol nad yw'r ddyfais fonitro berthnasol yn gallu ei throsglwyddo.

*Lesley Griffiths,*
y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

24 Ionawr 2022

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran cychod pysgota Cymreig (ym mha le bynnag y bônt) a chychod pysgota perthnasol sy'n pysgota yng Nghymru neu ym mharth Cymru. Mae'n rheoleiddio pysgota ar y môr a daw i rym ar 15 Chwefror 2022.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diffinio termau a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn, gan gynnwys y diffiniad o "cwch pysgota Cymreig" a "cwch pysgota perthnasol" at ddibenion y Gorchymyn hwn.

Mae paragraff (1) o erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gychod pysgota Cymreig, wrth bysgota yn y môr, a chychod pysgota perthnasol, wrth bysgota yng Nghymru neu ym mharth Cymru, i fod â dyfais fonitro ar eu bwrdd, i hysbysu Gweinidogion Cymru am faterion penodol ac i wybodaeth benodol (yr wybodaeth ofynnol) gael ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o ddeng munud. Mae paragraff (2) o erthygl 3 yn darparu bod perchennog, meistr a siartrwr (os oes un) (y person sydd â gofal) yn euog o drosedd os defnyddir y cwch pysgota yn groes i baragraff (1).

Mae erthygl 4 yn rhagnodi'r wybodaeth ofynnol y mae rhaid ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru.

Mae erthygl 5 yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau parhaus ar y person sydd â gofal o ran y ddyfais fonitro.

Mae erthygl 6 yn nodi gofynion penodol sy'n gymwys i'r person sydd â gofal os nad yw'r ddyfais fonitro yn gallu trosglwyddo'r wybodaeth ofynnol.

Yn rhinwedd adran 5(4) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p. 77), mae torri'r Gorchymyn hwn yn drosedd sy'n dwyn cosb ar gollfarn ddiannod o ddirwy ddiderfyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.